Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

LLYFRAUaRHAGOR
BOOKS&BEYOND
Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu | Library & Learning Resources

# LLAWLYFR CYFEIRNODI

# HARVARD

PCYDDS: Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu

Ellie Downes ac Alison Evans
**Llyfrgellwyr Cyswllt Academaidd**

# Croeso

Croeso i argraffiad 1af Llawlyfrau Cyfeirnodi Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a grëwyd yn rhan o ymdrech cydweithredol rhwng y Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu (LlAD), y Swyddfa Academaidd a staff academaidd o bob rhan o'r Brifysgol.

Mae cyfeirnodi'n gywir yn sgìl pwysig yn y byd academaidd, ac mae digon o wybodaeth anghyson neu wybodaeth sydd wedi dyddio ar gael, felly rydym wedi creu cyfarwyddyd cyson i fyfyrwyr PCYDDS.

Mae Llawlyfrau Cyfeirnodi ar gael ar gyfer y pedair safon a ddefnyddir yn PCYDDS ac mae cymorth a chyfarwyddyd pellach ar gael drwy'r LlAD gan eich Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd.

Hoffem ddiolch i'r staff academaidd perthnasol am eu hamser a'u mewnbwn.

Gobeithio y bydd y rhain yn helpu i wella'ch sgiliau a'ch hyder ac y bydd yr adnodd hwn yn ganllaw defnyddiol drwy fyd cyfeirnodi sy'n gallu bod yn ddigon ddryslyd ar brydiau.

Byddem yn falch i dderbyn adborth ar y canllawiau hyn, cysylltwch â **library@uwtsd.ac.uk** gydag unrhyw awgrymiadau.

**Ellie Downes**

**Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd**

# Cynnwys

Cyflwyniad 3
Beth yw cyfeirnodi? 3
Sut dylwn i ddefnyddio'r llawlyfr hwn? 3
Osgoi llên-ladrad 4
Cyngor cyfeirnodi 4
Meddalwedd Cyfeirnodi 4
Cymorth a Chefnogaeth 4
Dull Harvard o Gyfeirnodi: yr hanfodion 5
1. Cyfeiriadau yn y testun 5
2. Rhestr gyfeiriadau 5
Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhoi yn fy ngwaith? 5
Dyfyniadau 5
Dyfyniad hir - mwy na 30 gair neu 2 linell 5
Dyfyniad byr - hyd at 30 gair neu 2 linell 6
Aralleirio a chrynhoi 7
Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau? 8
1. Llyfrau ac e-lyfrau 8
2. Erthyglau mewn cyfnodolion a phapurau newydd 10
3. Rhyngrwyd 11
4. Cynadleddau 12
5. Gwybodaeth heb ei chyhoeddi 13
6. Adroddiadau a chanllawiau 14
7. Cyhoeddiadau cyfreithiol a llywodraeth 15
8. Gwybodaeth wyddonol a thechnegol 18
9. Adolygiadau 20
10. Deunyddiau gweledol 21
11. Perfformiadau byw 22
12. Ffilm a theledu 23
13. Cyfathrebu personol 24
14. Llawysgrifau 25

# Cyflwyniad

Argymhellir pedair arddull gyfeirnodi i'w defnyddio ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant:

- APA (Cymdeithas Seicolegol America)
- Harvard
- IEEE (Sefydliad y Peirianwyr Trydanol ac Electroneg)
- MHRA (Cymdeithas Ymchwil y Dyniaethau Modern)

Cewch wybod pa safon gyfeirnodi y dylech ei defnyddio drwy edrych yn eich Llawlyfr Rhaglen. Mae pob un o'r llawlyfrau cyfeirnodi ar gael yn yr adran Canllawiau Myfyrwyr ar MyDay ac yn **https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/**

# Beth yw cyfeirnodi?

Wrth lunio aseiniad academaidd, disgwylir i chi gydnabod gwaith pobl eraill drwy ei gyfeirnodi mewn fformat cydnabyddedig a chyson. Bydd angen hefyd i chi ddarparu manylion yr adnoddau rydych wedi'u darllen ar gyfer eich aseiniad. Mae nifer o resymau pan mae hyn yn angenrheidiol:

- Dangos ehangder yr ymchwil rydych wedi ymgymryd ag ef.
- Ychwanegu hygrededd academaidd at eich dadleuon.
- Galluogi darllenwyr i ddod o hyd i'r ffynonellau rydych wedi'u defnyddio yn eich gwaith.
- Cydnabod syniadau a gwaith pobl eraill.
- Osgoi llên-ladrad damweiniol.

# Sut dylwn i ddefnyddio'r llawlyfr hwn?

Bydd y llawlyfr yn eich helpu i adnabod yr angen am gyfeirnodi cywir ac yn eich cefnogi i ddatblygu eich sgiliau cyfeirnodi.

Mae'r llawlyfr yn darparu enghreifftiau o sut i greu dyfyniadau a chyfeiriadau yn y testun o rai o'r ffynonellau â'r defnydd mwyaf eang y gallech ddod ar eu traws yn ystod eich astudiaethau.

Nid yw'r llawlyfr yn gynhwysfawr a cheir enghreifftiau a chyfarwyddyd ychwanegol yn:

**Pears, R. and Shields, G. (2016) *Cite them right: the essential referencing guide*. 10th rev. edn. Basingstoke: Palgrave.**

sydd ar gael ymhob llyfrgell yn PCYDDS.

Dangosir enghraifft o sut y dylai'r cyfeiriad ymddangos yn eich testun yn y blwch hwn

Dangosir enghraifft o sut y dylai'r cyfeiriad ymddangos yn eich rhestr gyfeiriadau neu lyfryddiaeth yn y blwch hwn

## Osgoi llên-ladrad

Mae cyfeirnodi'n gywir hefyd yn golygu eich bod yn osgoi **llên-ladrad**, sef honni mai chi a luniodd waith rhywun arall.  Gall llên-ladrad fod yn fwriadol neu'n ddamweiniol; heb gyfeirnodi cywir mae'n bosibl llên-ladrata gwaith rhywun arall yn ddamweiniol.

Gellir dod o hyd i ddiffiniad cyflawn y Brifysgol o lên-ladrad yn rheoliadau'r Brifysgol: **https://www.uwtsd.ac.uk/cy/swyddfaacademaidd/rheoliadaur-brifysgol-canllawiau-ar-gyfer-myfyrwyr/**

## Cyngor cyfeirnodi

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa arddull gyfeirnodi y mae'ch rhaglen yn ei defnyddio cyn dechrau, bydd hyn yn eich llawlyfr rhaglen.
- Cadwch gofnod o'r ffynonellau rydych yn eu darllen wrth fynd.
- Byddwch yn gyson yn y cofnodion a gadwch ac yn y ffordd y byddwch yn cyfeirnodi.
- Neilltuwch ddigon o amser i wirio'ch cyfeirnodi
- Os nad ydych yn siŵr, rhowch eich hun yn lle'r darllenydd a gofyn a allech ddod o hyd i'r ffynhonnell yn hawdd o'ch cyfeirnodi
- Os nad ydych yn siŵr, ceisiwch eglurhad neu ofyn am help

## Meddalwedd Cyfeirnodi

Mae'r Llyfrgell yn rhoi mynediad i Refworks, rhaglen ar-lein sy'n eich helpu i gofnodi'ch ffynonellau mewn un lle ac yn rhoi cymorth i chi eu cyfeirnodi. Ceir mynediad iddo drwy wefan y llyfrgell, gan ddefnyddio'ch manylion mewngofnodi ar gyfer PCYDDS: **http://uwtsd.ac.uk/library/online-library/refworks/**

## Cymorth a Chefnogaeth

Yn ystod eich blwyddyn gyntaf cewch sesiwn yn yr ystafell ddosbarth ar gyfeirnodi a gallwch ddod i weithdai a sesiynau galw heibio rheolaidd ar hyd y flwyddyn academaidd yn rhan o'n rhaglen **Sgiliau Gwybodaeth**. Bydd manylion llawn ar gael ar y calendr Digwyddiadau Myfyrwyr sydd i'w weld drwy MyDay **https://uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/infoskills/** .  Cysylltwch â ni yn **@UWTSDLib**, ar Facebook, Twitter ac Instagram am y diweddaraf o ran cyngor defnyddiol.

Mae gennych Lyfrgellydd Cyswllt Academaidd penodol ar gyfer eich Cyfadran a'i rôl yw eich cefnogi ar hyd eich cwrs.   Gallwch weld pwy yw'ch Llyfrgellydd Cyswllt Academaidd a gwneud apwyntiad yma:  **https://www.uwtsd.ac.uk/cy/llyfrgell/cysylltu-a-ni/staff-llad/** neu drwy alw yn eich llyfrgell agosaf yn PCYDDS.

Mae cymorth ar gyfer cyfeirnodi hefyd ar gael gan Wasanaethau Myfyrwyr ac mae sesiynau galw heibio ar sgiliau astudio ar gael ar draws y campysau.

Dylai myfyrwyr mewn Sefydliadau Partner holi yn y llyfrgell yn eu sefydliad cartref i gael gwybod pa safon y dylent ei defnyddio a ble i gael cymorth.

# Dull Harvard o Gyfeirnodi: yr hanfodion

Mae arddull gyfeirnodi Harvard yn cynnwys y canlynol:

## Cyfeiriadau yn y testun:

Defnyddir y rhain wrth gyfeirio at ffynhonnell gwybodaeth o fewn testun eich aseiniad i ddangos o ble y daeth. Maent yn fanylion cryno'r ffynhonnell rydych yn cyfeirio ati ac yn gyffredinol yn cynnwys cyfenw'r awdur / golygydd, blwyddyn cyhoeddi ac, os oes angen, rhifau tudalennau e.e. **(Pears and Shields, 2016, p. 6)**. Nid oes angen cynnwys cyfenw'r awdur yn y cyfeiriad yn y testun os defnyddir y cyfenw yng nghorff eich gwaith e.e. **Yn ôl Pears a Shields (2006, p.6)**. Byddai hyn yn ailadrodd diangen.

## Rhestr gyfeiriadau:

Pwrpas y cyfeiriad yn y testun yw'ch cyfeirio at fanylion llawn y cyhoeddiad mewn rhestr gyfeiriadau neu lyfryddiaeth lawn ar ddiwedd eich gwaith. Dylai manylion cyhoeddi llawn y cyfeiriad fod ar gael yn y rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich aseiniad. Mae hyn yn cynnwys cofnod llyfryddiaethol llawn y ffynonellau y cyfeiriwyd atynt yn eich testun e.e.

Pears, R. and Shields, G. (2016) *Cite them right: the essential referencing guide*. 10th rev. edn. Basingstoke: Palgrave.

Dylai alluogi unrhyw ddarllenydd i ddod o hyd i'ch ffynhonnell wreiddiol. Trefnir rhestr gyfeiriadau yn nhrefn y wyddor yn ôl cyfenw'r awdur neu, os nad oes awdur, yn ôl y teitl. Weithiau gall eich tiwtor hefyd ofyn am lyfryddiaeth. Mae llyfryddiaeth yn rhestr o'r holl ffynonellau rydych wedi'u darllen ar gyfer eich aseiniad, os ydych wedi cyfeirio atynt yn eich testun neu beidio ac felly mae'n fwy cynhwysfawr na rhestr gyfeiriadau. Os nad ydych yn siŵr p'un sydd ei angen, gofynnwch i'ch darlithydd.

# Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhoi yn fy ngwaith?

## Dyfyniadau

Ystyr dyfyniad yw'ch bod yn cymryd yr union eiriau a ddefnyddir gan awdur arall ac yn eu gosod yn eich gwaith. Dylid defnyddio dyfyniadau uniongyrchol yn gynnil ac ond pryd maent yn berthnasol i'r ddadl rydych yn ei gwneud yn eich gwaith.

## Dyfyniad hir - mwy na 30 gair neu 2 linell

**Fformat:**

- crëwch baragraff ar wahân
- mewnosodwch y paragraff
- nid oes angen dyfynodau
- nodwch y cyfeiriad yn y testun ar ei ôl

**Enghraifft:**

Rhaid ystyried datblygiad Hardy o'r plot a'r cymeriadau yng nghyd-destun ehangach colli ffydd yn y gymdeithas ar ddiwedd oes Victoria. Fel y noda Dunmore:

> A central tension in Hardy's fiction is that between fully realized human beings, with all their potential for individual freedom of choice and action, and the apparently relentless operation of chance, indeed fate, which negates these freedoms. His fiction undoubtedly reflects late Victorian pessimism, an attempt to capture and convey the spirit of individuals before it is swept away by the tides of an indifferent universe (Dunmore, 2017, pp. 35-36).

## Dyfyniad byr - hyd at 30 gair neu 2 linell

**Fformat:**

- cynhwyswch ef yng nghorff y testun
- amgaewch ef mewn dyfynodau dwbl “”
- cyfenw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi a rhif y dudalen / URL wedi'u hamgáu (mewn cromfachau crwn)

**Enghraifft:**

Nid mathau syml mo cymeriadau Hardy. Maent yn “fully realized human beings, with all their potential for individual freedom of choice and action” (Dunmore, 2017, p. 35).

# Sut dylwn i ddyfynnu, aralleirio a chrynhoi yn fy ngwaith?

## Aralleirio a chrynhoi

Aralleirio yw pan fyddwch yn cymryd syniad rhywun arall ac yn ei roi yn eich geiriau eich hun. Crynhoi yw pan fyddwch yn rhoi trosolwg cryno o syniad rhywun arall. Byddai angen nodi rhif tudalen ond os ydych yn cyfeirio at ardal neu ran benodol iawn o'r testun. Bydd angen i chi ddilyn eich barn eich hun a ydy hyn yn angenrheidiol. Rhowch eich hun yn lle'r darllenydd: ydych chi'n cyfeirio at waith neu gysyniad cyfan neu at ran fach iawn ohono.

**Enghraifft:**

Noda Dunmore (2017) fod Hardy yn cyflwyno i'r darllenydd gymeriadau crwn sydd â'r gallu i weithredu'n annibynnol, ond bod y rhain wedi'u gosod mewn cyd-destun lle mae'u dewisiadau'n cael eu cyfyngu'n ddifrifol gan hap a damwain a ffawd. Mae hi'n priodoli hyn i'r amgylchedd deallusol yr ysgrifennai yntau ynddo - yn benodol, cyd-destun ysbrydol pesimistaidd Lloegr ar ddiwedd oes Victoria.

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 1. Llyfrau ac e-lyfrau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at lyfrau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

| **Cyfeiriad yn y testun:** | **Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:** |
|---|---|
| (Cyfenw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi, rhif tudalen) | • Cyfenw a blaenlythyren gyntaf yr awdur<br>• Blwyddyn cyhoeddi mewn cromfachau<br>• Teitl mewn italig<br>• Argraffiad (os ydy'n berthnasol)<br>• Man cyhoeddi: Cyhoeddwr |
| (Smith, 2016, p.5) | Smith, E. (2016) *How to improve your research project*. 2nd Ed. Plymouth: Kiln Press. |

Gan fod llyfrau printiedig ac electronig bron yn union yr un fath, nid oes angen nodi a ydy'n electronig ai peidio oni bai nad yw'r fersiwn electronig yn fersiwn union yr un fath â chyhoeddiad printiedig.

### 1.1 Llyfr â dau neu dri awdur

| | |
|---|---|
| (Phillips and Renton, 2012, p. 54) | Phillips, E.O. and Renton, P. (2012) *Teaching mathematics today*. Reading: Canalside Press. |

### 1.2 Llyfr â phedwar awdur neu fwy

| | |
|---|---|
| (Morton et al. 2014, p. 37) | Morton, A.C. et al. (2014) *Walking and learning*. Swansea: Sandpaper Press. |

### 1.3 Pennod mewn llyfr â golygydd

| | |
|---|---|
| (Hardy, 2015, p. 53) | Hardy, P.T. (2015) 'Outdoor play and how it can help learning', in Walker, E. (ed.) *A new approach to teaching in the primary school*. London: Todcaster and Frome. |

### 1.4 Llyfr heb awdur neu olygydd

Yn yr achos hwn byddech yn defnyddio'r teitl yn hytrach na'r awdur. Wrth ei restru yn y rhestr gyfeiriadau a/neu'r llyfryddiaeth, byddech yn ei restru yn nhrefn yr wyddor ond yn ôl ei deitl.

| | |
|---|---|
| (*How to make an impact*, 2009, p. 1) | *How to make an impact* (2009) London: Avery and Perch. |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 1.7 Llyfr â sefydliad fel awdur

Yn yr achos hwn, ymdrinnir ag enw'r Sefydliad fel yr awdur.

| Cyfeiriad yn y testun: | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth: |
|---|---|
| (Organisation for Research into Primary Education, 2017, p. 21) | Organisation for Research into Primary Education. (2017) *Learning today*. Stirling: McPhee and Jones. |

## 1.8 Nifer o weithiau gan yr un awdur

Labelwch nhw a. a b.

| | |
|---|---|
| **Blynyddoedd gwahanol:**<br>(McNamara, 2012, p.53)<br><br>(McNamara, 2017, p.20) | **Blynyddoedd gwahanol:**<br>McNamara, B.M. (2012) *Education for life*. Maidenhead: Riverstory.<br>McNamara, B.M. (2017) *Lifelong learning*. Maidenhead: Riverstory. |
| **Yr un flwyddyn:**<br>(Phelps, 2016a, p. 25)<br><br>(Phelps, 2016b, p.19) | **Yr un flwyddyn:**<br>Phelps, P.J. (2016a) Healthy learning. Edinburgh: Castle Books.<br>Phelps, P.J. (2016b) Nutrition in the early years. Edinburgh: Castle Books. |

## 1.9 Argraffiadau

| | |
|---|---|
| Yn ôl O'Brien (2016, pp. 15-17) gall brodyr a chwiorydd gael effaith fawr ar ddysgu.<br>***neu***<br>Gall brodyr a chwiorydd gael effaith fawr ar ddysgu (O'Brien, 2016, pp. 15-17). | O'Brien, T.M. (2016) *The impact of families on learning*. 3rd edn. Dublin: Blackwater Books. |

## 1.10 Cyfeiriad eilaidd

Darn o waith y cyfeiriwyd ato mewn rhywbeth rydych wedi'i ddarllen.  Pan fo'n bosibl, osgowch gyfeiriadau eilaidd, ac ewch at y gwaith gwreiddiol.

| | |
|---|---|
| Disgrifia Barnett (2013, dyfynnwyd yn Morton, 2016, p. 17 )"the importance of meeting special needs in the early years".<br>***neu***<br>Mae arddangosiad Barnett o bwysigrwydd diwallu anghenion arbennig yn y blynyddoedd cynnar (2013, dyfynnwyd yn Morton, 2016, p. 17) yn ddiddorol. | Morton, D.C. (2016) *Learning in the early years*. Exeter: Jones & Bart.<br><br>**Sylwer:**<br>Os nad ydych wedi darllen y ffynhonnell wreiddiol, peidiwch â'i chynnwys yn eich rhestr gyfeiriadau - gallwch gyfeirio ati yn eich testun yn unig. |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 2. Erthyglau mewn cyfnodolion a phapurau newydd

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at erthyglau mewn cyfnodolion a phapurau newydd lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

| **Cyfeiriad yn y testun:** | **Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:** |
|---|---|
| (Cyfenw'r awdur, blwyddyn cyhoeddi, rhif tudalen) | **Printiedig:**<br>• Cyfenw a blaenlythyren gyntaf yr awdur<br>• Blwyddyn cyhoeddi mewn cromfachau crwn<br>• Teitl yr erthygl wedi'i amgáu mewn dyfynodau sengl<br>• Teitl y cyfnodolyn mewn italig<br>• Cyfrol, rhifyn/rhan<br>• Ystod rhifau tudalen yr holl erthygl<br>**Electronig:** Tr uchod ynghyd â<br>• Dyddiad ei chyrchu<br>• DOI (Dynodydd Gwrthrych Digidol) neu URL (Lleolydd Adnoddau Unffurf) os nad oes DOI ar gael |
| (Price, 2014, p. 157) | Price, S. (2014) 'Planning for change', *Leadership and Business Planning*, 15(3), pp. 154-166.<br>***neu***<br>Price, S. (2014) 'Planning for change', *Leadership and Business Planning*, 15(3), pp. 154-166. DOI: 10.1080/034845691.2016.1056235 |

### 2.1 Papur newydd cyfan

| | |
|---|---|
| (The Guardian, 2017) | *The Guardian* (2017) 5th June. |

### 2.2 Erthygl mewn papur newydd

| | |
|---|---|
| (Jones, 2016) | Jones, P.J. (2016) 'STEM subjects win more funding', *The Times*, 4th May, p. 7. |

### 2.3 Erthygl mewn papur newydd electronig nad yw ar gael mewn print

| | |
|---|---|
| (Fox, 2016) | Fox, I.M. (2016) 'New report criticises lack of business leadership', *The Courier*, 9th January. Available at: http://www.thecourier.com/world/jan/16/report-IBCC (Accessed 12th January 2016). |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 3. Rhyngrwyd

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at y rhyngrwyd lynu at y fformat cyffredinol isod. Bydd elfennau i'w cynnwys yn amrywio, yn ddibynnol ar y math o wybodaeth rydych yn cyfeirio ati. Gweler yr adran ar lyfrau (1) i gael enghreifftiau o sut i gyfeirnodi e-lyfrau, yr adran ar gyfnodolion (2) am gyfeiriadau at erthyglau ar y rhyngrwyd, yr adran ar ffilm (12) am gyfeiriadau at ffilmiau ac ati.

| **Cyfeiriad yn y testun:** | **Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:** |
|---|---|
| • Cyfenw'r awdur / sefydliad<br>• Blwyddyn cyhoeddi<br>• Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • Cyfenw'r awdur ac , yn ei ddilyn<br>• Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)<br>• Teitl y wefan mewn italig ac<br>• Amgaewch y cyfrwng [mewn cromfachau a sgwâr]<br>• Available at: URL<br>• (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn |

### 3.1 Gwefan ag un awdur

| | |
|---|---|
| Roedd McCormack (2016) yn ffynhonnell gwybodaeth ddefnyddiol. | McCormack, E.F. (2016) *Dog breed characteristics*. Available at: http://www.dogbreedchar.co.uk/ (Accessed: 19th March 2017). |

### 3.2 Gwefan â sefydliad fel awdur

| | |
|---|---|
| Gall anifeiliaid anwes gael effaith fuddiol ar iechyd (National Health Service, 2015). | National Health Service (2015) *Pets and Health*. Available at: http://www.nhs.uk/Petsandhealth (Accessed: 30th March 2017). |

### 3.3 Blog neu flog fideo

| | |
|---|---|
| Disgrifiodd Tom Webster (2016) yr effaith y gall dyfodiad y gwanwyn ei chael. | Webster, T.G. (2016) 'Spring in step', *Tom Webster today* [blog]. 5 April. Available at: http://www.inet.co.uk/blogs/twebster2day/ (Accessed: 12 November 2016). |

### 3.4 Fideo / ffilm ar wefan rannu - e.e. YouTube

| | |
|---|---|
| Teimlir yr effaith gymdeithasol ar unwaith (Collins, 2015). | Collins, A.B. (2015) *Peer experiment: Art Collins* [video]. Available at: https://www.youtube.com/watch?x=tepJtl5We (Accessed: 21 June 2017). |

### 3.5 Facebook

Mae angen y diwrnod y'i postiwyd wrth gyfeirio at Facebook, Twitter a'r cyfryngau cymdeithasol eraill

| | |
|---|---|
| Mae parciau'n dal i gael eu defnyddio heddiw at lawer o ddibenion (Parks Today, 2017). | *Parks Today* (2017) [Facebook] 10 June. Available at: https://www.facebook.com/parks (Accessed: 15 June 2017). |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 4. Cynadleddau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at gynadleddau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

**Cyfeiriad yn y testun:**

- Cyfenw'r awdur / golygydd
- Blwyddyn cyhoeddi
- Rhif tudalen os oes angen
- Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Note:**

Os ydy ar gael ar lein yn unig

- Available at: URL
- (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn
- new DOI

**Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:**

- Awdur / golygydd ac , yn ei ddilyn
- Blaenlythrennau ac . yn eu dilyn
- Blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- Teitl y papur wedi'i amgáu mewn '' ac , yn ei ddilyn
- Teitl y gynhadledd mewn italig ac . yn ei ddilyn
- Lleoliad a dyddiad y gynhadledd ac . yn eu dilyn
- Man cyhoeddi ac : yn ei ddilyn
- Cyhoeddwr ac . yn ei ddilyn
- Rhifau tudalen os oes angen ac . yn eu dilyn

### 4.1 Trafodion cynhadledd llawn

Roedd y gynhadledd yn ddathliad o fentergarwch busnesau bach (Ferguson, 2016).

Ferguson, J.P. (ed.) (2016) 'Small business success', *5th SBE national conference*. University of Kent, Canterbury, 12-15th May. Dudley: Small Business Enterprise.

### 4.2 Papur cynhadledd unigol a gyhoeddwyd mewn cyfnodolyn

Dangosodd Davies (2016) sut i ymgorffori dealltwriaeth ynghylch rheoli newid o fewn hyfforddiant arweinyddiaeth.

Davies, K. (2016) 'Leadership and change management' (from the Proceedings of the 5th national conference on small business success, University of Kent, Canterbury, 12-15th May 2016). *Small Business Quarterly*, 4(3), pp. 30-43.

### 4.3 Papur cynhadledd unigol a gyhoeddwyd ar y rhyngrwyd

Pwysleisiodd Lewis (2016) bwysigrwydd diwylliant corfforaethol busnesau bach.

Lewis, K. (2016) 'Corporate culture and the confidence to expand', *Proceedings of the 5th national conference on small business success*. University of Kent, Canterbury, 12-15th May. Available at: http://www.doc.ac.uk/sites/SBE.presentations.pdf (Accessed: 10 June 2016).

LLYFRAUaRHAGOR BOOKS&BEYOND

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 5. Gwybodaeth heb ei chyhoeddi

Dylai’r rhan fwyaf o gyfeiriadau nad ydynt yn y parth cyhoeddus lynu at y fformatau cyffredinol isod. Sicrhewch fod gennych ganiatâd cyn defnyddio deunydd sydd heb ei gyhoeddi yn eich gwaith.

### 5.1 Adroddiad mewnol

| Cyfeiriad yn y testun: | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth: |
|---|---|
| • Cyfenw’r awdur / sefydliad<br>• Blwyddyn cyhoeddi<br>• Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • Awdur / sefydliad ac , yn ei ddilyn<br>• Blaenlythrennau ac . yn eu dilyn<br>• Blwyddyn ei lunio (mewn cromfachau crwn)<br>• Teitl yr adroddiad mewn italig ac . yn ei ddilyn<br>• Internal report - cynhwyswch enw’r sefydliad<br>• Unpublished ac . yn ei ddilyn |

### 5.2 Adroddiad cyfrinachol

Mae angen gwneud unrhyw adroddiad cyfrinachol yn ddienw fel y bo’n briodol

| | |
|---|---|
| • Asiantaeth a wnaethpwyd yn ddienw<br>• Blwyddyn cyhoeddi<br>• Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • Asiantaeth a wnaethpwyd yn ddienw [mewn cromfachau sgwâr]<br>• Blwyddyn ei lunio (mewn cromfachau crwn)<br>• Teitl mewn italig; rhan ddienw [cromfachau sgwâr] ac , yn ei ddilyn<br>• Man cyhoeddi ac : yn ei ddilyn<br>• lluniwr dienw [mewn cromfachau sgwâr] . |

### 5.3 Traethawd ymchwil

| | |
|---|---|
| • Cyfenw’r awdur<br>• Blwyddyn cyhoeddi<br>• Rhif tudalen os oes angen<br>• Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)<br><br>**Sylwer:**<br>Os cyrchwyd ef ar-lein, yn lle’r lleoliad a’r cyhoeddwr: Available at: URL. (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn | • Cyfenw’r awdur ac , yn ei ddilyn<br>• Blaenlythrennau ac . yn eu dilyn<br>• Blwyddyn cyflwyno (mewn cromfachau crwn)<br>• Teitl mewn italig ac . yn ei ddilyn<br>• Unpublished PhD thesis ac . yn ei ddilyn<br>• Corff dyfarnu graddau ac . yn ei ddilyn |
| Mae ymchwil diweddar wedi dangos cydberthyniad rhwng presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol poblogaidd a gwerthiannau uwch (Sloane, 2016, p. 15). | Sloane, D.E. (2016) *Social media and marketing in the entertainment industry*. Unpublished PhD thesis. University of Birmingham. |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 6. Adroddiadau a chanllawiau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at adroddiadau a chanllawiau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

**Cyfeiriad yn y testun:**

- Cyfenw'r awdur / sefydliad
- Blwyddyn cyhoeddi
- Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Sylwer:**
Os cyrchwyd ef ar-lein, yn lle'r lleoliad a'r cyhoeddwr nodwch:
Available at: URL
(Accessed: date) ac . yn ei ddilyn

**Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:**

- Cyfenw'r awdur ac , yn ei ddilyn / sefydliad
- Blaenlythrennau ac . yn eu dilyn os oes angen
- Blwyddyn ei lunio (mewn cromfachau crwn)
- Reitl yr adroddiad mewn italig ac . yn ei ddilyn
- Man cyhoeddi ac : yn ei ddilyn
- Enw'r cyhoeddwr ac . yn ei ddilyn

### 6.1 Adroddiad ymchwil

Mae trethi'n amrywio'n sylweddol rhwng bwrdeistrefi (Phelps, 2016).

Phelps, P.W. (2016) *A study of business rates in London*. London: Crabtree Centre for Research.

### 6.2 Adroddiad blynyddol cwmni

Cynyddodd yr elw bob chwarter (Edison and Toms Ltd, 2016).

Edison and Toms Ltd. (2016) *Annual report 2016*. Available at: http://www.annualrep2014edLtd/downloads/PDF/ (Accessed: 5 January 2017).

### 6.3 Adroddiadau ymchwil i'r farchnad o gronfa ddata

Mae'r adroddiad diweddaraf yn tynnu sylw at y gwahaniaethau hyn (Tiptel, 2015).

Tiptel (2015) *Women's Apparel UK*. Available at: http://www.tiptel.com/downloads/pdf (Accessed: 9 June 2016).

### 6.4 Canllawiau ar-lein

Mae'r canllawiau'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn yn y sefyllfa hon (Hove Hospital, 2015).

Hove Hospital (2015) *Emergency intervention procedures*. Available at: http://www.hh.nhs.uk/health/guidelines/emerg (Accessed: 5 November 2016).

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 7. Cyhoeddiadau cyfreithiol a llywodraeth

Rhoddir yr enghreifftiau isod o gyhoeddiadau cyfreithiol yn y fformat awdur-dyddiad (Harvard). Gall hyn fod yn wahanol i systemau cyfeirnodi, megis Safon Rhydychen ar gyfer Cyfeirio at Awdurdodau Cyfreithiol (OSCOLA), a ddefnyddir mewn llawer o ysgolion y gyfraith yn y DG.

| Cyfeiriad yn y testun (Deddf Seneddol): | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth (Deddf Seneddol) |
| --- | --- |
| • Teitl y ddeddf mewn italig<br>• Amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • Teitl y ddeddf mewn italig. Cynhwyswch y flwyddyn a rhif y bennod ac . yn eu dilyn<br>• Available at: URL<br>• (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn |

### 7.1 Deddf Seneddol (Statud)

| | |
| --- | --- |
| Mae deddfwriaeth y llywodraeth bellach yn atgyfnerthu'r dull hwn (*Enhanced Urban Air Quality Act 2017*) | Enhanced Urban Air Quality Act 2017, c. 2. Available at: http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/2/contents/enacted (Accessed: 14 March).<br><br>**Sylwer:**<br>Dylid cynnwys gwybodaeth am y wlad mewn cromfachau (crwn) ond os ydych yn cyfeirnodi deddfwriaeth mwy nag un wlad. |

### 7.2 Offeryn Statudol (OS)

| | |
| --- | --- |
| Enw / teitl mewn italig. Cynhwyswch y flwyddyn. | • Enw / teitl mewn italig. Cynhwyswch y flwyddyn<br>• Blwyddyn a rhif yr OS (mewn cromfachau crwn) ac , yn eu dilyn<br>• Available at: URL<br>• (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn |
| Dangoswyd y diweddariad hwn yn eglur yn yr *Endangered Fish Protection Council (Constitution) (Amendment) Order 2016*. | *Endangered Fish Protection Council (Constitution) (Amendment) Order 2016* (SI 2016/ 1322). Available at: http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/1322/contents/made (Accessed: 12 November 2016). |

LLYFRAUaRHAGOR BOOKS&BEYOND

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 7.3 Papur Gorchymyn (yn cynnwys papurau Gwyrdd a Gwyn)

**Cyfeiriad yn y testun:**
• adran
• blwyddyn cyhoeddi
• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Sylwer:** Os cyrchwyd ef ar-lein, yn lle'r lleoliad a'r cyhoeddwr nodwch:
• Available at: URL
• (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn

**Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:**
• adran
• blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
• teitl yr adroddiad / papur mewn italig
• rhif y papur gorchymyn (mewn cromfachau crwn)
• man cyhoeddi ac : yn ei ddilyn
• enw'r cyhoeddwr ac . yn ei ddilyn

New proposals on the long term care of the elderly are being considered (Department of Health, 2017).

Department of Health (2017) *Secure and Fair Provision of Long Term Social Care for the Elderly* (Cm 6702). Available at: https://www.gov.uk/government/publications/secure-long-term-social-care-report-20157 (Accessed: 17 May 2017).

## 7.4 Deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru

• teitl mewn italig. Cynhwyswch y flwyddyn.
• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

• teitl y Mesur Cynulliad / OS mewn italig
• Cynhwyswch y flwyddyn
• Rhif mccc y Mesur Cynulliad mewn cromfachau crwn ac , yn ei ddilyn
• neu Offeryn Statudol Cymru blwyddyn /  rhif OS (Cy.) ac , yn ei ddilyn
• Available at: URL
• (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn

**Mesurau'r Cynulliad (mccc):**
Mae Mesur 2011 (*Mesur Addysg (Cymru) 2011*) yn cadarnhau'r safbwynt hwn.

**Offerynnau Statudol (Cy):**
Gellir gweld hyn yn Offeryn Statudol Cymru (*Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018*)

**Mesurau'r Cynulliad (mccc):**
*Mesur Addysg (Cymru) 2011* (nawm 7). Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/7/contents/enacted/welsh
(Accessed: 17 September 2014).

**Offerynnau Statudol (Cy):**
*Rheoliadau Addysg (Cymorth I Fyfyrwyr) (Cymru) 2018*. Welsh Statutory Instrument 2018/ 191 (W.42). Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/191/contents/made/welsh
(Accessed: 17 September 2015).

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 7.5 Adroddiad cyfreithiol (achos)

| Cyfeiriad yn y testun: | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth: |
|---|---|
| • enw'r achos wedi'i amgáu mewn ‘<br>• blwyddyn cyhoeddi<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • enw'r achos wedi'i amgáu mewn ‘’<br>• blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)<br>• teitl yr adroddiad cyfreithiol mewn italig ac , yn ei ddilyn<br>• rhif y gyfrol ac , yn ei ddilyn<br>• rhifau tudalen |
| Dangoswyd yn eglur yn yr achos blaenorol (‘R v. Jones (Thomas)’, 2004). | ‘R v. Jones (Thomas)’ (2004) *Weekly Legal Briefings*, 23, pp. 36-37. |

## 7.6 Adroddiad cyfreithiol (achos) - cyfeiriad niwtral

Mae cyfeiriadau niwtral yn dynodi achos heb gyfeirio at y gyfres brintiedig o adroddiadau cyfreithiol lle y'i cyhoeddwyd. Gallant fod o gymorth i ddynodi'r achos ar-lein (Pears and Shields, 2016, p.55).

| | |
|---|---|
| • enw'r partïon mewn italig ac wedi'u hamgáu mewn ‘’<br>• blwyddyn cyhoeddi<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • enw'r partïon mewn italig ac wedi'u hamgáu mewn ‘’<br>• blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn).<br>• llys a rhif yr achos ac . yn eu dilyn<br>• cronfa ddata neu wefan mewn italig<br>• [online]<br>• Available at: URL<br>• (Accessed: date) followed by . |
| Mae achos ‘Adams v. South Mercia Police’ (2013) yn profi'r pwynt hwn. | ‘*Adams v. South Mercia Police*’ (2013) United Kingdom Supreme Court, case 45. Brieflegal [Online] Available at: http://www.brieflegal.org/uk/cases/UKSC/2013/45.html. (Accessed: 17 September 2015). |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 7.7 Cyhoeddiadau'r llywodraeth

**Cyfeiriad yn y testun:**
- enw'r adran o'r llywodraeth
- blwyddyn cyhoeddi
- amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:**
- enw'r adran o'r llywodraeth
- blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- teitl mewn italig ac . yn ei ddilyn
- man cyhoeddi ac : yn ei ddilyn
- enw'r cyhoeddwr ac . yn ei ddilyn

Mae newidiadau yn amodau'r hinsawdd a ragfynegwyd wedi arwain at ailystyried rôl rhwystrau llifogydd (Department of the Environment, 2014).

Department of the Environment (2014) *Erratic Climate Conditions and the Role of Natural Flood Barriers*. Available at: http://www.doe.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyand Guidance/DOE 76453 (Accessed: 3 June 2014).

# 8. Gwybodaeth wyddonol a thechnegol

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at wybodaeth wyddonol a thechnegol lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

## 8.1 Safon dechnegol

**Cyfeiriad yn y testun:**
- enw'r sefydliad awdurdodi
- blwyddyn cyhoeddi
- amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Sylwer**
Os cyrchwyd ef ar-lein, yn lle'r lleoliad a'r cyhoeddwr nodwch:
Available at: URL.
(Accessed: date) ac . yn ei ddilyn

**Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:**
- enw'r sefydliad awdurdodi ac yn ei ddilyn
- blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)
- rhif a theitl y safon mewn italig ac . yn eu dilyn
- man cyhoeddi ac : yn ei ddilyn
- enw'r cyhoeddwr ac . yn ei ddilyn

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 8.2 Patent

| **Cyfeiriad yn y testun:** | **Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:** |
|---|---|
| • cyfenw'r dyfeisiwr/dyfeiswyr<br>• blwyddyn cyhoeddi<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • cyfenw'r dyfeisiwr/dyfeiswyr ac , yn ei ddilyn<br>• blaenlythrennau ac . yn eu dilyn<br>• blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)<br>• teitl mewn italig ac . yn ei ddilyn<br>• sefydliad awdurdodi<br>• rhif patent ac . yn ei ddilyn<br>• Available at: URL<br>• (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn |
| Ceir tystiolaeth bellach o hyn yn y ddogfen (Patel, 2013). | Patel, P. (2013) *Self-Inflating Tyre*. UK Intellectual Property Office Patent no. GB456738. Available at: http://www.ipo.gov.uk/pub (Accessed 6 October 2014). |

## 8.3 Graff

| | |
|---|---|
| • cyfenw'r dyfeisiwr/dyfeiswyr<br>• blwyddyn cyhoeddi<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • cyfenw'r awdur ac , yn ei ddilyn<br>• blaenlythrennau ac . yn eu dilyn<br>• blwyddyn cyhoeddi (mewn cromfachau crwn)<br>• teitl mewn italig ac . yn ei ddilyn<br>• man cyhoeddi ac : yn ei ddilyn<br>• enw'r cyhoeddwr ac , yn ei ddilyn<br>• rhif tudalen neu rif ffigur y graff<br>• graph |
| Gellir dangos yr effaith hon yn eglur mewn graff (Wolf, 2017). | Wolf, E. (2017) A comparison of water usage by region. Carmarthen: Bridge Press, p. 34, graph. |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 9. Adolygiadau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at adolygiadau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

**Cyfeiriad yn y testun:**
- cyfenw'r adolygydd
- blwyddyn cyhoeddi
- amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Sylwer:** Os cyrchwyd ef ar-lein, yn lle'r lleoliad a'r cyhoeddwr nodwch:
- Available at: URL
- (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn

**Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:**
- cyfenw'r adolygydd ac , yn ei ddilyn
- blaenlythrennau ac . yn eu dilyn
- blwyddyn cyhoeddi'r adolygiad (mewn cromfachau crwn)
- teitl yr adolygiad wedi'i amgáu mewn '' ac . yn ei ddilyn
- Review of … y teitl sy'n cael ei adolygu mewn italig ac yn ei ddilyn
- Patent number followed by .
- by... awdur/cyfarwyddwr y gwaith
- manylion cyhoeddi (teitl mewn italig)

### 9.1 Adolygiad o lyfr

| Cyfeiriad yn y testun | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth |
|---|---|
| Fodd bynnag, ni chefnogai McConnell (2015) y dadansoddiad hwn. | McConnell, E.J. (2015) 'Marching to Victory'. Review of *Recruit to soldier: training techniques in ancient and modern armies*, by Thomas Jenkinson. *Journal of Military History*, 10(2), pp. 21-23. |

### 9.2 Adolygiad o ffilm

| Cyfeiriad yn y testun | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth |
|---|---|
| Yn ddiweddar mae enw da'r ffilm wedi cael ei ail-werthuso (Connington, 2009). | Connington, K.L. (2009) 'A rediscovered classic'. Review of *Dark Enemy*, directed by George Phelps. Available at: http://www.imdb.com/pp03489/reviews (Accessed: 19 April 2016). |

### 9.3 Adolygiad o ddrama

| Cyfeiriad yn y testun | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth |
|---|---|
| Roedd o leiaf un adolygydd (Willis, 2017, p. 10) o'r farn ei fod yn ddull arloesol a llwyddiannus o lwyfannu'r ddrama. | Willis, J.W. (2017) 'Family fun for all'. Review of *Beside the seaside*, by P. Welling. Grand Theatre, Scarborough. Evening Times (Review section), 10 July, p. 10. |

LLYFRAUaRHAGOR
BOOKS&BEYOND
Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu | Library & Learning Resources

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 10. Deunyddiau gweledol

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at ddeunyddiau gweledol lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

**Cyfeiriad yn y testun:**
- cyfenw'r artist
- blwyddyn cyhoeddi
- amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)

**Sylwer:** Os cyrchwyd ef ar-lein, yn lle'r lleoliad a'r cyhoeddwr nodwch:
- Available at: URL
- (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn

**Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:**
- cyfenw'r artist ac , yn ei ddilyn
- blaenlythrennau ac . yn eu dilyn
- blwyddyn, os ydy'n hysbys (mewn cromfachau crwn)
- teitl y gwaith mewn italig
- cyfrwng [mewn cromfachau sgwâr], os oes angen
- sefydliad / casgliad lle cedwir y gwaith
- dinas lle cedwir y gwaith
- dyddiad y'i gwelwyd (mewn cromfachau crwn)

### 10.1 Arddangosfa

| | |
|---|---|
| Yn dilyn hynny trefnwyd arddangosfa ôl-syllol bwysig (Chagall: a celebration, 2009). | *Chagall: a celebration* (2009) [Exhibition]. Tate Modern, London. 15 September 2009-23 January 2010. |

### 10.2 Paentiad / lluniad

| | |
|---|---|
| Mae'r broses a ddefnyddir yn unigryw (Puerto, 1730). | Puerto, M. (1730) *Madonna* [Oil on canvas]. Available at: http://www.cambartonline.com (Accessed: 21 April 2017). |

### 10.3 Gosodiad / arddangosyn

| | |
|---|---|
| Gellir gweld hyn yn eglur yn Living room gan Paula Granger (2004). | Granger, P. (2004) *Living room* [Installation]. Thames gallery, London. (Viewed: 5 August 2004). |

### 10.4 Ffotograff mewn casgliad ar-lein

| | |
|---|---|
| Roedd y gwaith olaf hwn yn darlunio'i holl hoff themâu yn cydweithio (Evans, 2008). | Evans, K. (2008) *Rose*. Available at: https://Instagram.com/rose (Accessed: 16 June 2017). |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 10.5 Darluniad, ffigur, diagram, logo a thabl mewn llyfr

| Cyfeiriad yn y testun: | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth: |
| --- | --- |
| **Mewn llyfr printiedig:**<br>Mae paentiad Stewart yn tynnu sylw at y nodwedd hon o'r tŷ (Lewis, 1995, pp. 78-79). | **Mewn llyfr printiedig:**<br>Lewis, P.R. (1995) *The art of the stately home*. Oxford: Century Books, pp. 78-79, illus. |
| **Ar-lein:**<br>Mae'r tueddiad i ddewis y math hwn o borslen wedi'i enghreifftio'n eglur (George, 2006). | **Ar-lein:**<br>George, T.L. (2006) *An inventory of London's oldest houses* [Table]. Available at: http://www.invent/lonhouses.com (Accessed 2 February 2015). |

## 10.6 Graffiti

| | |
| --- | --- |
| Yn aml gall graffiti ddatgelu teimladau sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn mewn ardal (Peaceful progress, 2000) | *Peaceful Progress* [Graffiti] (2000) 15 Gate Street, Belfast, Northern Ireland. (Viewed: 5 August 2002). |

# 11. Perfformiadau byw

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at berfformiadau byw lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

## 11.1 Dawns

| Cyfeiriad yn y testun: | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth: |
| --- | --- |
| • cyfenw'r coreograffydd<br>• blwyddyn y première<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • cyfenw'r coreograffydd ac , yn ei ddilyn<br>• blaenlythrennau ac . yn eu dilyn<br>• blwyddyn y première (mewn cromfachau crwn)<br>• teitl mewn italig<br>• lleoliad a dyddiad y'i gwelwyd [mewn cromfachau sgwâr] |
| Roedd y perfformiad yn cynnwys llawer o nodweddion y crëwr ei hun (Steele, 1953) | Steele, E. (1953) *Work day blues* [Red Shed Theatre, London. 5 May 2016]. |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 11.2 Drama

| Cyfeiriad yn y testun: | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth: |
|---|---|
| • teitl mewn italig<br>• blwyddyn perfformio<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • teitl mewn italig<br>• by ...<br>• blwyddyn perfformio (mewn cromfachau crwn)<br>• Directed by ...<br>• lleoliad a'r dyddiad y'i gwelwyd [mewn cromfachau sgwâr] |
| Roedd dyluniad y set yn llwyddiant ysgubol (Macbeth, 2008). | *Macbeth* by William Shakespeare (2008) Directed by John Wood [Old Theatre, Bristol, 3 March 2008]. |

## 12. Ffilm a theledu

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at ffilm a theledu lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

### 12.1 Rhaglen deledu

| Cyfeiriad yn y testun: | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth: |
|---|---|
| • teitl yr episod mewn italig<br>• blwyddyn darlledu<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn)<br><br>**Sylwer:** Os cyrchwyd ef ar-lein, yn lle'r lleoliad a'r cyhoeddwr nodwch:<br>• Available at: URL<br>• (Accessed: date) ac . yn ei ddilyn | • teitl yr episod wedi'i amgáu mewn ‘’<br>• blwyddyn darlledu (mewn cromfachau crwn)<br>• teitl y rhaglen mewn italig<br>• cyfres a rhif yr episod<br>• enw'r sianel<br>• dyddiad darlledu |
| Mae'r trosolwg cynhwysfawr hwn yn dal i roi llawer o fanylion arwyddocaol (*A history of Britain*, 2012). | *A history of Britain* (2012) BBC One Television, 5 September. |

### 12.2 Rhaglen deledu a welwyd ar y rhyngrwyd

| | |
|---|---|
| Archwiliwyd effaith profiadau personol Shelley fel mam yn *Mary Shelley: A Writer's Life* (‘Love and Loss’, 2016). | ‘Love and Loss’ (2016) *Mary Shelley: A Writer's Life,* Episode 3. BBC 4, 25 October. Available at: http://www.bbc.co.uk/programmes/maryshelley/episodeguide/ep3 (Accessed: 3 November 2016). |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 12.3 Ffilm

| Cyfeiriad yn y testun: | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth: |
|---|---|
| • teitl y ffilm<br>• blwyddyn dosbarthu<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • teitl y ffilm mewn italig<br>• blwyddyn dosbarthu (mewn cromfachau crwn)<br>• Directed by ...<br>• cyfrwng [mewn cromfachau sgwâr]<br>• man dosbarthu ac : yn ei ddilyn<br>• cwmni dosbarthu ac . yn ei ddilyn |

Gweler hefyd yr adran ar y rhyngrwyd (3) ar gyfer cyfeirnodi ffilmiau a welwyd ar-lein.

## 12.4 Ffilm ar DVD / Blu-ray

| | |
|---|---|
| Yn hanes sinema Gothig, mae'r ffilmiau gorau'n gadael y gynulleidfa'n rhyfeddu, er enghraifft, *An Eye Through the Keyhole* (1979). | *An Eye Through the Keyhole* (1979) Directed by Kathy Delgado [DVD]. London: Hecate Films. |

## 12.5 Cyfweliad gyda chyfarwyddwr ffilm ar DVD / Blu-ray

| | |
|---|---|
| Pwysleisiodd y cyfarwyddwr mor heriol yn dechnegol roedd yr amserlen saethu (Williams, 2012). | Williams, C. (2012) 'Interview with C. Williams'. Interviewed by B. Rodgers. *Shadow of the Ice Caves* [Blu-ray]. Los Angeles, Calif.: Blue Diamond Productions Inc. |

## 13. Cyfathrebu personol

***sgyrsiau, Skype, ffôn, FaceTime, e-bost, neges destun, llythyr***

Wrth ddefnyddio cyfathrebu personol, sicrhewch fod gennych ganiatâd yr anfonwr cyn cyfeirio ato.

| Cyfeiriad yn y testun: | Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth: |
|---|---|
| • cyfenw'r anfonwr<br>• blwyddyn cyfathrebu<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • cyfenw'r anfonwr ac , yn ei ddilyn<br>• blaenlythrennau ac . yn eu dilyn<br>• blwyddyn cyfathrebu (mewn cromfachau crwn)<br>• cyfrwng<br>• derbynnydd y cyfathrebu ac , yn ei ddilyn<br>• diwrnod a mis y cyfathrebu |

# Sut dylwn i gyfeirnodi mathau penodol o adnoddau?

## 14. Llawysgrifau

Dylai'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at lawysgrifau lynu at y fformat cyffredinol isod. Gall elfennau amrywio ychydig. Darperir enghreifftiau penodol.

### 14.1 Casgliad o lawysgrifau

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad yn y testun:**<br>• lleoliad y casgliad<br>• enw'r casgliad<br>• MS<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | **Rhestr gyfeiriadau / Llyfryddiaeth:**<br>• lleoliad y casgliad<br>• enw'r casgliad<br>• MS |
| Mae cofnodion yn cadarnhau bod credoau o'r fath yn dal mewn bodolaeth yn Swydd Efrog ar yr adeg hon (York Library, Pendlemerry Witch Trials MS). | York Library, Pendlemerry Witch Trials MS. |

### 14.2 Llawysgrif unigol

| | |
|---|---|
| • cyfenw'r awdur / teitl<br>• blwyddyn<br>• amgaewch y cyfeiriad (mewn cromfachau crwn) | • cyfenw'r awdur os ydy'n hysbys ac , yn ei ddilyn<br>• blaenlythrennau ac . yn eu dilyn<br>• Year (in round brackets)<br>• blwyddyn (mewn cromfachau crwn)<br>• diwrnod a mis os ydynt yn hysbys mewn italig<br>• enw'r casgliad<br>• cyfeirnod y llawysgrif<br>• lleoliad y casgliad |
| Roedd pobl o bob cwr o'r wlad yn meddwl am heddwch ar yr adeg hon (Nesbit-Jones, 1812) | Nesbit-Jones, T. (1812) *Prayer for Peace*, 3 May. Nesbit-Jones Archive 156 C12/1, Chesire Trust, Chester. |